

Gwesty Trychfilod

gan Anni Llŷn



Roedd Cyw a Triog wedi bod yn brysur ers dyddiau yn creu gwesty trychfilod yn yr ardd. Roedd y gwesty'n llawn brigau, mwsog, dail a darnau o risgl ac yn llawn tyllau a chorneli tywyll.



Roedd yn llwyddiant mawr. Roedd pawb eisiau aros yn y gwesty; y falwoden, y morgrug, y fuwch goch gota a'r chwilen.




Ond roedd y gwesty mor boblogaidd, doedd dim lle i bawb.
“Mae gen i syniad!” meddai Cyw.



“Cewch chi aros yn y tŷ!” meddai hi, cyn arwain y fuwch goch gota, y chwilen a'r morgrug i'r tŷ. Daeth y falwoden hefyd, ond yn araf iawn, iawn.



Dyweddodd Cyw wrth y trychfilod am ddefnyddio'r ystafell fyw fel gwesty a gwneud eu hunain yn gartrefol. Roedd pawb yn ddiolchgar iawn.



Aeth Cyw a Triog i'r gegin i gael tamaid i'w fwyta ar ôl yr holl waith caled. Wnaethon nhw ddim sylwi nad oedd y falwoden wedi cyrraedd yr ystafell fyw.



Ar ôl bwyta dywedodd Triog wrth Cyw ei bod wedi blino ac am fynd i'r gwely am ychydig. Aeth Triog i fyny'r grisiau ac aeth Cyw i ofalu bod y trychfilod yn hapus.



Roedd yr ystafell fyw yn llawn trychfilod. Ond roedd pawb yn hapus ac yn llawn cyffro ar ôl cael rhywle cyfforddus i swatio.



Yn sydyn, clywodd Cyw
floedd yn dod o'r llofft.
Aeth ar frys i fyni'r grisiau
i chwilio am Triog. Beth
oedd yn bod?



Roedd Triog wedi neidio
i'r gwely heb sylwi fod
rhywbeth yn y gwely'n
barod... cragen!
Wrth i Triog a Cyw edrych
yn ofalus ar y cragen,
daeth dwy lygad gysglyd
i'r golwg.



Y falwoden oedd yno!
Roedd hi wedi cyrraedd
yn hwyr ac wedi mynd i
swatio yng ngwely Triog.
"Mae'n ddrwg gen i!"
meddai'r falwoden fach.



Doedd dim ots gan Triog. Roedd digon o le yn y gwely i'r falwoden a hi gael gorwedd.
Cafodd y criw tipyn o sioc ar ôl dod adre a gweld bod y tŷ i gyd yn westy trychfilod!

Cwis Gwesty Trychfilod

I'r oedolion
Os ydy'ch plentyn
yn ansicr, beth am
ddarllen y stori
gyda nhw eto?

Ble oedd y Gwesty Trychfilod?

**Rho gylch
o gwmpas
yr ateb
cywir.**



neu



parc

gardd

Pwy oedd yn symud yn araf iawn?




neu




malwoden

buwch goch gota

Ble oedd y falwoden yn cysgu?



neu



bath

gwely

I wrando ar
'Straeon Comic Cyw'
clicia yma
neu sganio'r cod QR.



Teimladau

Mae Cyw a'i ffrindiau yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i'r ysgol. Tynna lun i ddangos sut wyt ti'n teimlo.

Ysgol

Pam wyt
ti'n teimlo
fel hyn?

I wrando ar
y gân 'Yn yr Ysgol'
clicia yma
neu sgania'r cod QR.



Defnyddia'r lluniau yma i dy helpu.



hapus



trist



blin



ofnus



blinedig



sâl



cynhyrfus

Croeso i'r Gwesty Trychfilod



Yn yr hydref mae llawer o greaduriaid bach yn chwilio am rywle cynnes i gysgu dros y gaeaf. Defnyddia dy fys i ddilyn pob llwybr ac i weld pwy sy'n cyrraedd y gwesty.



I wrando ar y gân
'Trychfilod'
clicia yma
neu sgania'r cod QR.



Wyt ti'n gallu enwi'r creaduriaid bach yma?



Wyt ti'n gallu lliwio'r goeden trwy ddilyn y rhifau?

1

brown

2

gwyrdd

3


oren

4

coch

5

melyn



I liwio mwy o luniau
gyda rhifau
clicia yma
neu sgania'r cod QR.



Wyt ti'n gwybod...?
Mae dail yn disgyn yn
yr hydref wrth i'r coed
baratoi i fynd i gysgu
dros y gaeaf.

Casglu Cnau

Mae'r wiwer fach wrth ei bodd yn casglu cnau ar gyfer y gaeaf.

Defnyddia dy fys neu bensil i ddilyn y llwybr a helpu'r wiwer i gasglu pob cneuen. Mae 6 ohonyn nhw!



Chwilair Hydrefol

Mae hi'n hydref ym Myd Cyw.

Wyt ti'n gallu dod o hyd i'r geiriau yma yn y chwilair?

Ry'n ni wedi dod o hyd i un gair yn barod i ti.



dail



côt



mesen



glaw



draenog



pumpen



gwiwer

n	e	g	w	d	a	i	l
c	ô	t	f	i	w	a	c
b	m	e	s	e	n	h	g
w	c	l	g	s	d	t	s
d	r	a	e	n	o	g	e
p	w	m	p	e	n	p	f
a	b	t	o	g	l	a	w
g	w	i	w	e	r	o	c

I wrando ar y gân
'Dawns y Dail'

clicia yma

neu sganïa'r cod QR.



Lliwia'r llun mawr yr un fath â'r llun bach.

Wyt ti'n gwybod...?

Mae wiwerod coch yn brin iawn. Maen nhw'n goch llachar ac mae ganddyn nhw gynffon fflwfflyd. Rwyd ti'n lwcus iawn os wyt ti'n eu gweld.



Bw!

gan Sioned Wyn Roberts



Mae hi'n noson Calan Gaeaf ac mae Archarwyr Cyw am gael parti sbŵci. Mae'r gwisgoedd, y pwmpenni oren a'r malws melys i gyd yn barod. Dim ond un peth sydd ar ôl – yr afalau taffi.



Wrth i Llew roi'r afalau taffi ar y bwrdd, mae rhywbeth gwyn yn neidio i mewn drwy'r drws ac yn gweiddi "Bw!"


"Ysbryd!" gwaeddodd Llew mewn ofn.




Mae'r archarwyr wedi dychryn gymaint, mae eu siwpyr-bwerau yn hollol wyllt!
Mae Llew yn gwneud bybls, Cyw yn neidio'n uchel, uchel, a Jangl yn mynd yn gyflym iawn. Ond mae Plwmp wedi cael mwy o sioc na neb ac yn chwythu fel balŵn yn colli pwff. Plwmp druan!



Wrth i bawb dawelu, mae balŵn yn byrstio wrth glust Triog. Pop!



Mae Triog yn cael cymaint o fraw, mae ei siwpyr-bŵer cryf yn tynnu'r holl afalau taffi gludiog ati nes ei bod hi'n edrych fel anghenfil Calan Gaeaf!



“Mmm, dyma’r afalau taffi gorau yn y byd,” meddai Plwmp.
 “A dyma’r anghenfil Calan Gaeaf gorau yn y byd!”
 meddai Llew, a gwenu ar Triog.



Mae Triog yn gweiddi “Bw!” eto, ond does neb yn dychryn y tro yma.
 Maen nhw’n rhy brysur yn sgloffio bwyd blasus y parti Calan Gaeaf gorau erioed.

Lliwio a Chyfrî'r Hydref

Edrycha ar y rhif a lliwia'r nifer cywir ym mhob rhes.

5



3



4



2



1



Dathlu Diwali


Cysyllta'r dotiau i greu lamp arbennig ar gyfer Diwali.

Wyt ti'n gwybod...?

Enw arall ar Diwali
yw Gŵyl y Goleuadau,
ac yn ystod Diwali mae
pobl yn goleuo lampau
bach o'r enw diya
a chanhwyllau.

Beth am
ddefnyddio
lliwiau hydrefol fel
coch, oren a melyn
i wneud dy lamp
yn ddisglair?

Diya



Gweld y Gwahaniaeth

Mae Cyw a'i ffrindiau'n cael parti Calan Gaeaf.
Wyt ti'n gallu gweld 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Noson Tân Gwylt

gan Anni Llŷn

Edrycha ar y lluniau a'r geiriau, ac yna darllena'r stori.
Bob tro weli di un o'r lluniau yn y stori, dwed y gair yn uchel.



Cyw



sgarff



het



Llew



brechdanau



Jangl



fflasg



Plwmp



Bolgi



soffa



bwrdd



bath

Roedd  a'r criw yn mynd i wyllo'r tân gwylt. Roedd pawb yn gwisgo  gynnes a . Roedd  wedi paratoi  ac roedd  wedi gwneud siocled poeth mewn  i bawb.

Roedden nhw i gyd yn llawn cyffro!

Ond cyn gadael y tŷ, sylwodd  nad oedd  yno.

“Ble mae ?” holodd. Yng nghanol y cyffro doedden nhw ddim wedi sylwi fod  ddim yno.

Aeth pawb i chwilio amdano. Aeth  i edrych y tu ôl i'r  yn yr ystafell fyw. Aeth  a  i edrych yn y gegin, o dan y . Aeth Cyw i'r ystafell ymolchi ac edrych yn y .

Ond doedd dim sôn am  yn unman.

Yn sydyn, clywodd  sŵn bach yn dod o'r ystafell wely.

Aeth yno ar frys, ond doedd hi ddim yn gallu gweld  yn unman.



gwely



Bolgi



Cyw



cadair



roced



fffenest



brechdanau

Clywodd y sŵn eto, yn dod o   . Aeth  yn nes. Doedd  ddim yn y  ond roedd o'n cuddio o dan y  â'i bawennau dros ei glustiau.

“ ? Wyt ti'n iawn?” holodd  .
 “Na,” meddai  , “mae ofn arna i.”

Llwyddodd  i berswadio  i ddod allan o dan y  ac eistedd ar  . Dywedodd  wrthi bod arno ofn sŵn tân gwyllt. Daeth gweddill y criw i'r ystafell atyn nhw a dywedodd pawb wrth  nad oedd rhaid iddyn nhw fynd i wyllo'r tân gwyllt – byddai'n well aros adref.


Roedd  yn falch ond yn teimlo'n drist nad oedd ei ffrindiau yn cael gweld y tân gwyllt. Ond yn sydyn sylweddolodd  eu bod yn gallu gweld  yn ffrwydro drwy'r  . Roedden nhw'n gallu gweld popeth ond ddim clywed y sŵn clecio brawychus oedd yn dychryn  . Dyna wych!

Swatiodd pawb ar   i fwyta'r  ac yfed y siocled poeth gan wyllo'r tân gwyllt drwy'r  .


Wyt ti'n gallu
ysgrifennu'r geiriau yma?





fflasg



brechdanau



sgarff



roced



Sawl un o'r rhain weli di?



seren



sbarcler



lleuad



coelcerth



roced



Mae rhai
anifeiliaid yn
ofni sŷn
tân gwyllt.
Cadwa nhw'n
ddiogel yn y tŷ.

Gwisga fenig
wrth ddal
sbarcler
i gadw
dy ddwylo'n
ddiogel.

Paid â sefyll
yn rhy agos at
y goelcerth
- mae'n boeth
iawn!

Un tro...

Beth sy'n digwydd yn y llun?

Dwed dy stori wrth oedolyn neu athro, neu ei hysgrifennu o dan y llun.
Cofia ddechrau dy stori gyda: "Un tro..."

Geiriau i dy helpu...

dail

gwiwer

draenog

llwynog

I'r oedolion






Mae gweithgaredd fel hyn yn annog plant i ddatblygu geirfa, defnyddio dychymyg, ac adeiladu hyder wrth adrodd stori.



Un tro

Patrymau Hydrefol

Edrycha ar y patrymau'n ofalus.
Wyt ti'n gallu gorffen y patrwm?




Wyt ti'n gwybod...?
Mae gwiwerod weithiau'n
anghofio ble maen nhw'n
cuddio eu mes - ac mae
rhai mes yn tyfu'n goed!

Amser am Antur!

Mae Triog a'i ffrindiau wrth eu bodd un mynd ar antur yn yr awyr agored. Beth am i ti fynd ar antur gydag oedolyn?



mes



Rho ☒ yn
y bocs pan
rwyf ti'n
gweld rhain

gwe pry cop



Wyt ti'n gwybod...?
Mae gan y llwynog
enw arall: cadno



llwynog






dail



robin goch



draenog



gwiwer



Ble mae Cyw?

Mae Cyw wedi mynd i'r fferm pwmpenni.
Wyt ti'n gallu gweld ble mae hi'n cuddio?

Wyt ti'n gweld
bwan brain
gyda het las?



Tynna wyneb
gwirion ar
y bwmpen
fawr.



Parc
Glan Gwil

S4C Cyw

6:00

Bob dydd Every day
s4c.cymru/cyw



BLUEY



Cofiwch ailgylchu
Comic Cyw ar ôl ei
ddarllen - diolch am
helpu'r blaned!



I'r oedolion

I danysgrifio i
e-bost misol Cyw

clicia yma

neu sgania'r cod QR.



I wrando ar
'Straeon Comic Cyw'

clicia yma

neu sgania'r cod QR.



Diolch am ddarllen!
Rhifyn 5 yn dod
yn fuan!

Cynnwys: Helen Davies, Anni Llŷn, Sioned Wyn Roberts, Sioned Mills, Marian Eluned

Dylunwyd gan: Bait Studio

Golygydd: Meiryn Wyn Edwards

Ymgynghorydd Addysg: Gwenith Blair

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

S4C

BOOMCYMRU